

# Deall arolygiadau mewn ysgolion: canllaw i rieni a gofalwyr



BUDDSODDWR  
MEWN POBL | Aur



*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru mae'n annibynnol ar, ond fe'i ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

/ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;

/ ysgolion cynradd;

/ ysgolion uwchradd;

/ ysgolion arbennig;

/ unedau cyfeirio disgyblion;

/ ysgolion annibynnol;

/ addysg bellach;

/ colegau arbenigol annibynnol

/ dysgu oedolion yn y gymuned;

/ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;

/ addysg a hyfforddiant athrawon;

/ Cymraeg i oedolion

/ dysgu yn y gwaith; a

/ dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd** yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac mae'n cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Mae ein gwaith arolygu a'n cyngor yn chwarae rhan allweddol mewn codi safonau ac ansawdd a llywio polisi addysg a hyfforddiant ar draws Cymru.

---

### **Prif Swyddfa:**

Llys Angor, Heol Keen,  
Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 2044 6446

Ffacs: 029 2044 6448

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

### Sut bydd arolygiad o fudd i'm plentyn?

Mae arolygiad yn dweud wrthoch chi am y safonau a'r ansawdd yn ysgol eich plentyn. Mae'n dweud wrthoch chi beth y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r hyn nad yw'n gwneud cystal. Mae'n cynnig barn arbenigol i'r ysgol ar ei gwaith ac yn ei helpu i wella a chodi safonau.

### Pwy sy'n arolygu'r ysgol?

Mae'r tîm arolygu'n cael ei arwain gan arolygydd cofnodol. Bydd arolygiadau yn cael eu harwain naill ai gan un o Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) neu gan Arolygydd Cofrestredig sydd wedi'i hyfforddi gan Estyn i gynnal Arolygiadau. Mae arolygwyr yn bobl sydd â phrofiad helaeth o addysgu ac addysg.

Bydd pob tîm arolygu hefyd yn cynnwys arolygydd lleig ac arolygydd cymheiriaid. Nid yw arolygwyr lleig wedi gweithio fel athrawon mewn ysgolion. Mae arolygwyr cymheiriaid yn athrawon neu'n rheolwyr presennol o ysgol arall.

Gall pob ysgol gynnwys rhywun sy'n gweithio yn yr ysgol yn y tîm arolygu. Mae'r enwebai hwn yn rhoi gwybodaeth i arolygwyr am yr ysgol a'i gwaith. Nid oes rhaid i ysgolion ymgymryd â'r opsiwn hwn.

Bydd arolygwyr wedi cael cliriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd arolygwyr yn dilyn cod ymddygiad Estyn wrth gynnal yr arolygiad.

### **Sut bydd yr ysgol yn cael ei harolygu?**

Mae ysgolion yn cael eu harolygu bob chwe blynedd ac yn gyffredinol, byddant yn cael tua phedair wythnos o rybudd o'u harolygiad.

Mae pob ysgol yn cael yr un math o arolygiad. Cynhelir arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar gyfer arolygu, sydd i'w weld drwy fynd i wefan Estyn yn [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk).

Mae arolygiadau'n cychwyn gydag arfarniad yr ysgol o'i gwaith ei hun a data am ei pherfformiad.

### **Sut mae arolygwyr yn ystyried fy marn i ar yr ysgol?**

*Mae Estyn eisiau gwybod eich barn chi ar yr ysgol.*

Mae dwy brif ffordd y gallwch wneud hyn. Yn gyntaf, fe ddewch o hyd i holiadur o fewn y daflen hon. Gallwch gwblhau yr holiadur mewn copi caled a'i ddychwelyd i'r ysgol, neu fel arall, gallwch gwblhau'r holiadur ar-lein drwy ddewis ysgol eich plentyn o'r rhestr yn <http://vir.estyn.gov.uk>. Yn ail, bydd pob rhiant yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod gydag arolygwyr ar ddechrau wythnos yr arolygiad. Bydd y tîm arolygu yn defnyddio'r wybodaeth hon i gael gwybod mwy am yr ysgol.

Os teimlwch fod angen i chi siarad â'r arolygwyr, ond na allwch fynychu'r cyfarfod rhieni, bydd yr arolygydd cofnodol yn ceisio trefnu hyn i chi. Efallai na fydd modd gwneud hyn bob amser, fodd bynnag. Fel arall, gallwch fynegi'ch safbwyntiau yn ysgrifenedig a'u gadael mewn amlen dan sêl gydag ysgrifennydd yr ysgol, wedi'i marcio at sylw'r Arolygydd Cofnodol.

### **Sut bydd arolygwyr yn ystyried barn fy mhlentyn ar yr ysgol?**

Yn ystod y diwrnod ysgol yn yr wythnos arolygu, bydd arolygwyr yn gofyn i grwpiau o blant am eu teimladau am yr ysgol. Byddant yn siarad â nhw am y gwaith y maent yn ei wneud a pha mor dda y maent yn ei wneud. Mae gwranddo ar ddysgwyr yn rhan bwysig iawn o'r broses arolygu.

Bydd sampl o ddysgwyr sy'n cynrychioli pob oedran yn yr ysgol yn cael holiaduron i'w llenwi. Yn achos rhai grwpiau o ddysgwyr, bydd arolygwyr yn cynnal arolygon ar lafar yn ystod yr arolygiad yn lle hynny.

### **Sut byddaf yn cael gwybod am farn yr arolygwyr?**

Bydd Estyn yn llunio'r adroddiad terfynol a chrynodeb cyn pen 35 diwrnod gwaith o ddiwedd y cyfnod arolygu. Yn swyddogol, 10 niwrnod gwaith yn dechrau ar y diwrnod cyntaf yn yr ysgol yw'r cyfnod arolygu, er y bydd nifer y diwrnodau sy'n cael eu treulio yn yr ysgol yn llawer llai na hyn fel arfer ac yn dibynnu ar faint yr ysgol a'r math o ysgol. Yna, bydd y corff llywodraethol yn anfon copi o'r adroddiad arolygu atoch pan fydd wedi derbyn yr adroddiad.

Gallwch ddarllen yr adroddiad ar ein gwefan hefyd yn [estyn.gov.uk](http://estyn.gov.uk).

### **Bydd yr adroddiad yn cynnwys:**

- / barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol yr ysgol; a
- / barn gyffredinol ar ragolygon gwella'r ysgol.

### **Hefyd, bydd ganddo farnau ar:**

- / ddeilliannau – y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, a'u lles;
- / darpariaeth – profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu; ac
- / arweinyddiaeth – arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau.

### **Bydd yr holl farnau yn cael eu seilio ar raddfa pedwar pwynt:**

**Rhagorol:** llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector;

**Da:** llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol;

**Digonol:** cryfderau yn gorbwysu meysydd i'w gwella; ac

**Anfoddfaol:** meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu cryfderau.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys tabl yn crynhoi'r ymatebion gan rieni a dysgwyr i'r holiaduron. Ni fyddwn yn cyhoeddi tabl os oes llai na 10 o ymatebion.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn dilyn yr arolygiad, mae'n rhaid i bob ysgol lunio cynllun ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Bydd perfformiad ysgolion sy'n gwneud yn dda yn cael ei gydnabod yn yr adroddiad arolygu. Bydd unrhyw arfer sy'n arwain y sector yn cael ei hysgrifennu fel astudiaeth achos, a gellir ei rhannu gydag ysgolion eraill drwy wefan Estyn.

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu'n ystyried a yw'r ysgol yn tanberfformio ac a oes angen gweithgarwch dilynol arni.

Yn y rhan fwyaf o achosion pan fydd angen gweithgarwch dilynol ar ysgol, bydd hyn yn cynnwys monitro agos gan yr awdurdod lleol neu ymweliad monitro gan Estyn. Bydd yr ymweliad hwn yn canolbwyntio ar yr argymhellion yn yr adroddiad gwreiddiol.

Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud yn dda, mae nifer fach o ysgolion o hyd lle dylai'r disgyblion fod yn gwneud yn llawer gwell nag y maent. Mewn ysgolion lle mae safon gwaith disgyblion yn dderbyniol yn gyffredinol ond lle ceir problemau pwysig, gellir disgrifio bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Mewn nifer fach iawn o achosion lle mae'r arolygwyr o'r farn nad yw'r ysgol yn cynnig safon dderbyniol o addysg i ddisgyblion ac na all wella heb gymorth allanol, mae'n bosibl bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol. Bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgolion hyn i weld a ydynt yn gwella, a byddant yn parhau yn y ddau gategori uchod hyd nes bod Estyn yn fodlon eu bod yn darparu addysg well ar gyfer disgyblion.

### **Beth ydw i'n ei wneud os oes gennyf bryderon am yr arolygiad?**

Mae cwynion am arolygiad yn anghyffredin iawn. Caiff pob cwyn ei chymryd o ddifrif. Os oes gennych bryder ynghylch arolygiad ysgol eich plentyn, dylech ffonio 029 20 446446 neu anfon neges e-bost at [adborth@estyn.gov.uk](mailto:adborth@estyn.gov.uk) neu ysgrifennu at:

### **Rheolwr Adborth a Chwynion**

Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW